Afasic GeirfA

Awtistiaeth / anhwylder awtistiaeth / awtistiaeth mewn plant / awtistiaeth mewn babanod

Beth yw awtistiaeth?

Mae nodweddion penodol yn y ffordd y bydd plant yn gweithredu yn arwain at eu disgrifio drwy ddefnyddio un o'r labeli hyn. Mae yna dri maen prawf y cytunwyd arnynt yn eang y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir gosod plentyn yn y categori hwn:

1. anawsterau cyson i ryngweithio'n gymdeithasol â phobl eraill. Er y bydd rhai plant sydd ag awtistiaeth yn mwynhau cael cysylltiad corfforol syml, fel cael eu cofleidio a'u gogleisio, yn gyffredinol bydd yn ymddangos eu bod yn cadw hyd braich ac yn encilgar. Gall rhaglenni arbennig wella'u gallu i gymdeithasu ac i gyfathrebu ond bydd yr anhawster sylfaenol yn amlwg o hyd o ganlyniad i anawsterau'r person awtistig i roi ei hun yn sefyllfa rhywun arall ac ymateb i'w teimladau.

2. anawsterau cyson i gyfathrebu ag eraill. Bydd rhai unigolion yn hwyr yn dysgu siarad, tra na fydd eraill byth yn dysgu. Mae iaith yn deillio o'n hangen i gyfathrebu â'n gilydd ac yn gysylltiedig â'r angen hwn yn y bôn. Efallai fod rhai o'r nodweddion canlynol yn anawsterau nodweddiadol:

- ymateb gwan pan fydd eraill yn siarad, yn ystumio neu'n mynegi â'u hwyneb. Mae'r olaf yn rhan o amrywiaeth ehangach o arwyddion sydd hefyd yn cynnwys edrych ym myw llygad rhywun ac iaith y corff. Gelwir hyn yn aml yn fath o gyfathrebu aneiriol. Bydd unigolion awtistig yn ymateb yn wan i'r holl ffyrdd hyn o gyfathrebu.
- cael anhawster i ddechrau sgwrs a dilyn sgwrs. Mae'r gwendid hwn yn fwy amlwg mewn grwpiau.
- tueddu i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion nad ydynt yn addas ar gyfer y sefyllfa. Mae hwn yn aml yn cynnwys ailadrodd.
- efallai y bydd lleferydd yn dangos patrymau anarferol o'r agweddau 'cerddorol' – cyflymder, pwyslais, rhythm, goslef a thraw. Mae pob un o'r rhain yn cario neges ac yn dilyn rheolau cymdeithasol.

3. Mae chwarae dychmygol yn gyfyngedig a diddordebau yn gul ac yn gyfyngedig. Mae chwarae dychmygol gyda theganau fel ceir, doliau a gwisgo dillad ffansi yn hwyr i ddatblygu ac yn gyfyngedig. Mae yna duedd i fynnu gwneud yr un pethau gyda gwrthrychau a phobl yn yr un sefyllfaoedd. Ymddengys yr unigolyn yn anhyblyg ac yn awyddus i gadw i'r drefn feunyddiol, a bydd cynigion i newid pethau'n peri gofid iddo. Gall hyn gynnwys:

- ailadrodd symudiadau heb reswm amlwg – chwarae gyda gwrthrych, symud llaw, bwrw'r pen.
- ymgolli ei hun mewn rhannau o wrthrychau yn barhaus – edrych ar beiriant golchi'n gweithio, symud car tegan er mwyn gwylio'r olwynion.

Bydd unigolion awtistaidd hyn, er eu bod wedi llwyddo i feistroli ymddygiad priodol trwy hyfforddiant ac addysg, yn parhau ar ymylon grwpiau cymdeithasol ac yn dilyn ystod gul o ddiddordebau. Bydd y canlyniadau ar gyfer unigolion yn amrywio gryn lawer, ond gellir disgwyl mwy o gynnydd yn gyffredinol na'r sefyllfa 15 mlynedd yn ôl.

Er nad ydym yn gwybod sut y mae'r ymddygiad sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth yn gysylltiedig â'r ymennydd, mae yna dystiolaeth aruthrol i ddangos bod gan awtistiaeth wreiddiau biolegol. Mae'n gynhenid mewn unigolion, ac ni chaiff ei greu gan yr hyn sy'n digwydd iddynt yn ystod bywyd, hyd yn oed fel babanod newydd-anedig.

Cyfeiriadau

Frith, U (1989), *Autism: Explaining the Enigma*, Basil Blackwell

Wing, L (1988), The continuum of autistic characteristics, yn *Diagnosis and Assessment in Autism*, **golygyddion Shopler, E a Mesibov, G**, Plenum Press

Aarons, M a Gittens, T, *The Handbook of Autism*, Routledge

Bishop, D (1989), Autism, Asperger's syndrome and semantic-pragmatic disorder: where are the boundaries? yn *British Journal of Disorders of Communication* 24, t.107-121

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Syndrom Asperger (11)
- Anhwylderau datblygiadol hydreiddiol (16)
- Anhwylderau semantig a phragmatig (5)

Sefydliadau eraill a all helpu

National Autistic Society Cymru
Langford Court, Neath, West Glamorgan SA10 7HN
Ffôn: 01792 326 820

Autism Cymru National Office
6 Great Darkgate Street, Aberyswyth SA23 1DE
Ffôn: 01970 625 305

Ysgrifennwyd gan Bob Daines, seicolegydd addysgol, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol.